

Gwybodaeth i Gleifion

Gwirio Llinynnau'r Llais

Adran ENT

Pam mae angen gwiriad llinynnau'r llais arnoch?

Mae'r chwârren thyroid yn agos iawn at y blwch llais (laryncs) a'r nerfau i'r blwch llais. Cymhlethdod prin i lawdriniaeth ar y thyroid yw anaf i'r nerf laryngaidd rheolaidd sy'n achosi parlys llinynnau'r llais (llai o symud ar gyhyr y blwch llais). Gall hyn beri i'ch llais fod yn gryg ac yn wan.

Mae gwiriad ar llinynnau'r llais yn galluogi meddygon i weld sut mae eich blwch llais yn gweithio cyn eich llawdriniaeth.

Sut mae gwirio llinynnau'ch llais?

Yn gyntaf, caiff eich ffroenau eu chwistrelli gyda rhywfaint o anesthetig lleol er mwyn sicrhau bod yr archwiliad yn fwy cyfforddus i chi. Yn anffodus nid yw'r anesthetig lleol yn blasu'n dda iawn a gallwch wrthod ei gael.

Nid yw'r archwiliad yn boenus, ond mae'n anghyfforddus. Mae'r archwiliad yn gweithio orau pan fyddwch wedi ymlacio ac yn parhau i anadlu fel arfer drwyddi draw.

Caiff camera ystwyth tenau (nasendosgop) ei roi yn ofalus trwy un ffroen a thros gefn y trwyn i mewn i'ch gwddf.

Pan fydd y camera yn ei le, gofynnir i chi ddweud "ïï" sawl gwaith a/neu siarad er mwyn gweld sut mae llinynnau'ch llais yn symud.

Ni fydd yr archwiliad yn cymryd mwy na 5 munud.

Fe'ch cynghorir i beidio ag yfed neu fwyta unrhyw beth am tua 30 munud ar ôl yr archwiliad er mwyn gadael i effaith yr anesthetig ddod i ben.

A oes unrhyw ddewisiadau eraill?

Yn anffodus nid oes ffordd arall o asesu llinynnau'ch llais.

Rydym eisiau eich cynnwys yn yr holl benderfyniadau am eich gofal a'ch triniaeth. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau unrhyw bryd, mae croeso i chi roi gwybod i ni.

A oes risgiau?

Gyda nasendosgopi, mae'n bosibl y gallai'r canlynol ddigwydd:

- Gwaedlif o'r trwyn
- Peswch
- Gwingiad ar linyddau'r llais
- Teimlo'n benysgafn
- Alergedd i'r anesthetig lleol

Mae'r risgiau hyn yn digwydd i lai nag un o bob 100 o bobl

Cysylltu â ni

Os oes gennych unrhyw bryderon am yr archwiliad hwn, cysylltwch â ni yn:

Ystafell Driniaeth CTLI
Ward D5W, Lefel 5
Ysbyty Brenhinol Gwent
Casnewydd
Ffôn: 01633 – 234018

Bwriad y ddogfen hon yw rhoi gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid ei bwriad yw rhoi cyngor personol nac i gymryd lle cyngor sy'n ymwneud â sefyllfa benodol. Dylai darllenwyr geisio cyngor priodol cyn cymryd neu beidio â chymryd unrhyw gamau mewn ymateb i wybodaeth a geir yn y ddogfen hon.

**“Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English”.**